# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Chwefror 2026

Amser: 13.30 - 15.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15748

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Carr o Walton-on-the-Hill<br>, Y Llysoedd Barn Brenhinol |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Elizabeth Foster (Dirprwy Glerc)<br>Megan Ford (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Arglwyddes Brif Ustus

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'i gylch gwaith cyfiawnder gan yr Arglwyddes Brif Ustus.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)721 – Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 3) 2026

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

### 3.2 SL(6)722 – Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) (Diwygio) 2026

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

### 3.3 SL(6)724 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Gwerth Lluosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

### 3.4 SL(6)726 – Gorchymyn Deddf Hawliau Rhentwyr 2025 (Cychwyn) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(6)717 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Estyniad i Weithgareddau Morol) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4.2 SL(6)718 – Rheoliadau Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4.3 SL(6)723 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4.4 SL(6)727 – Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4.5 SL(6)729 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4.6 SL(6)730 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4.7 SL(6)720 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)696 – Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 2) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 ac 21.3 – trafodwyd eisoes

### 6.1 SL(6)719 – Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Adam Price AS: Cynnig i ddileu pwerau cynllunio corfforaethau datblygu trefol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at Adam Price AS.

### 8.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni a chytunodd i ysgrifennu yn ôl ati cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor ym mis Mawrth gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

**8.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Cyllid: Memorandwm Esboniadol diwygiedig ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Cyllid.

**8.4 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

**8.5 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau Pwyllgorau ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

**8.6 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

### 8.7 Gohebiaeth at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Nododd y Pwyllgor ei ohebiaeth at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Sesiwn dystiolaeth gyda'r Arglwyddes Brif Ustus: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan yr Arglwyddes Brif Ustus. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynghylch materion a gododd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion: Adroddiad drafft

Hysbyswyd y Pwyllgor fod disgwyl i femorandwm cydsyniad deddfwriaethol arall gael ei osod mewn perthynas â'r Bil, ac y byddai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yn cael ei ymestyn o ganlyniad i hynny. Felly, cytunodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad wedi'i ddiwygio ar y ddau femoranda yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Home Ed Cymru a Chymdeithas Education Otherwise.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seiberddiogelwch a Seiberwydnwch (Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth): Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu): Diweddariad ar lafar

Clywodd yr Aelodau ddiweddariad llafar ar y Memorandwm. Cytunodd y Pwyllgor i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror.